

## O Garreg Boeth i Borth yr Aur

'Pen-blwydd? Pwy'n "ben" eleni?  
Pwy'n llanc? Pwy'n ieuanc fel ni?'

Dyna rai o'r cwestiynau a ofynnodd Dr Gwyn Lewis i'r gynulleidfa niferus – o bell ac agos – a ddaeth ynghyd yn Theatr Seilo, Caernarfon, nos Lun, 17 Mawrth, i ddathlu a gwerthfawrogi cyfraniad cwbl nodedig y Parch. Harri Parri i fyd crefydd, diwylliant, a llenyddiaeth yng Nghymru ers canol y ganrif ddiwethaf. Ac yntau'n dathlu pen-blwydd arbennig iawn yn ddiweddarach eleni, roedd y Theatr yn rhwydd i dalu gwrogaeth iddo a mwynhau awr o bortread o'i fywyd a'i waith dan arweiniad Gwyn, gyda darlleniadau o rai o'i storïau enwocaf gan John Ogwen.

Yn dilyn gair o groeso a chyflwyniad gan Lywydd y noson, Richard Parry Jones, aeth Gwyn yn ei flaen i olrhain y prif gerrig milltir yn hanes Harri Parri fel Gweinidog uchel iawn ei barch a'i ddylanwad mewn tair ardal wahanol. Fe'i hystyrid yn Weiniadog gwahanol ac arloesol a lwyddodd i gyflwyno neges a her yr efengyl mewn ffyrdd cyfoes a pherthnasol yn yr ardaloedd hynny gyda'i 'weiniadogaeth lydan' (chwedl y Parch. Pryderi Llwyd Jones). Yn dilyn agor ei gŵys gyntaf yn ardal Uwchaled ar gychwyn y 1960au, symudodd i Ddyffryn Madog yn 1964 (a ystyrid ganddo yn 'flynyddoedd y mentro ac arbrofi') cyn ymgartrefu yng Nghaernarfon yn 1976 fel Gweinidog cyntaf y Seilo 'newydd' – gyda thre'r Cofis yn 'caniatáu iddo fod yn fo ei hun!' Ac roedd cael theatr fodern ynghlwm wrth y capel yn cynnig her a chyfle rhy dda i'w colli – ac fe droes yntau ei law at lunio sgriptiau a fyddai'n gwneud defnydd llawn o adnoddau'r theatr a mynd yn ei flaen i lwyfannu pasiantau blynyddol i ddiddanu a dwysbigo'i gynulleidfa am 32 mlynedd gyda chynrychiadau cyfoethog Cymdeithas y Gronyn Gwenith.



Bu Harri Parri yn awdur hynod doreithiog ar hyd y blynyddoedd – byth ers dyddiau sefydlu Gwasg Tŷ ar y Graig gyda'i gyfaill mawr, y diweddar Barch. Gareth Maelor, yn 1969 – a chyhoeddodd nifer o bortreadau o unigolion hanesyddol, dwy nofel, ac amrywiol gyfrolau eraill yn ystod ei yrfa. Ond fel crëwr y gweinidog diffuant a diniwed, y Parch. Eilir Thomas – gyda'i braidd amryliw yng Ngharreg Boeth a Phorth yr Aur – y gwnaeth ei gyfraniad mwyaf i lenyddiaeth Gymraeg, gan haeddu gael ei alw yn 'feistr y stori fer ffaeth' yng Nghymru ar bwys y ffaith iddo bortreadau cymanfa o gymeriadau dychmygol a sefyllfaoedd gwirioneddol ddigri yn grefftus a llawn argyhoeddiad am dros 50 mlynedd. Pwy fyth all anghofio cymeriadau fel Dafydd ac Ann Robaitsh Heidden Sur, Ifans y Coparé, Shamus Mulligan a'r Mulliganiaid, Jac Black, William Howarth, Cecil Siswrn a Dwynen Lightfoot (ac enwi dim ond dynnau)? Maen nhw i gyd yn rhan o'n chwedloniaeth ni fel Cymry erbyn hyn – oherwydd i Harri Parri gonsurio sefyllfaoedd mor wirioneddol ffaeth ar eu cyfer gyda'i ddyfeisgarwch dychmygus a'i fedr athrylithgar i drin geiriau.



Yn ystod y noson, cafwyd enghreifftiau godidog o rai o'r sefyllfaoedd hyn wrth i John Ogwen chwythu anadl einioes i rai o'r cymeriadau yn ei ffordd grefftus ddihafal ei hun. Roedd y gynulleidfa yn ei dyblau â bonllefau o chwerthin yn atsain drwy'r theatr – yn union fel y byddai hi yn y Babell Lên yn sesiynau llwyddiannus 'Stori Awr Ginio' yr Eisteddfod Genedlaethol rhwng 1997 a 2009.

Daeth y noson i ben gyda'r gynulleidfa ar ei thraed i anrhydeddu Harri Parri – a diolchodd y Llywydd i Gwyn am drefnu a llywio noson gwbl arbennig a oedd yn deyrnged wirioneddol haeddiannol i ŵr a wnaeth gymaint o gyfraniad yn lleol ac yn genedlaethol. Ac ar gais Harri Parri ei hun, ni chodwyd unrhyw dâl mynediad – dim ond gwahodd pawb i gyfrannu tuag at waith Uned Gofal Coronari Ysbyty Gwynedd i gydnabod y gofal arbennig a gafodd ef yno y llynedd. Prawf o'r parch sydd gan bawb at Harri yw i'r noson wneud elw o dros £1,200 a diolchir i bawb am y fath haelioni.

Pen-blwydd hapus iawn, Harri, pan fyddwch yn dathlu yn ddiweddarach eleni!

## Arddangosfa gymunedol 'Yn y dechreuad'



Wnaethoch chi erioed feddwl sut beth oedd anadliad cyntaf Adda? Neu pa fath o brofiad oedd o i Efa siarad mewn diniweidrwydd â Duw yng ngardd Eden? A beth am yr hen gwestiwn gogleisiol hwnnw, 'Beth ddaeth gynta' – yr wy ynteu'r iâr?' Dyma ambell gwestiwn oedd yn codi wrth sylwi ar y darnau celf amrywiol, lliwgar a llawn dychymyg oedd yn cael eu harddangos yng Nghapel y Drindod, Pwllheli, yn ystod yr wythnos 11–16 Mawrth.

Roedd hwn yn brosiect rhwng Capeli Tudweiliog, Gofalaeth Pwllheli a Lois Adams, artist cymunedol o Gaerdydd. Rhoddwyd gwahoddiad agored i artistiaid o bob cefndir a gallu i gyflwyno gwaith ar y thema 'Yn y dechreuad'. Bu Lois yn arwain gweithdai celf mewn pedair ysgol leol ac roedd ffrwyth eu llafur yn rhan amlwg o'r arddangosfa.

Cafwyd noson agoriadol hwyliog gyda Band Pwllheli yn diddanu, a darlith wyddonol ddiddorol ar y thema 'Yn y dechreuad' ar y nos Fercher gan Dr Emyr Macdonald. Daeth y cyfan i ben gyda gwasanaeth arbennig ar y bore Sul dan arweiniad Bryn Williams ymhlith y darnau o gelf hyfryd.

Daeth nifer dda iawn i ymweld â'r arddangosfa, a chafwyd nifer o sgysiau da gyda'r gwahanol ymwelwyr. Heb amheuaeth,

roedd yn brosiect gwerth ei gynnal. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd, ac yn arbennig i Lois am ei gwaith caled.

Er mwyn cael blas o'r arddangosfa a'r digwyddiadau a fu ynglŷn â hi, dilynwch y dolenni isod at y fideos a baratowyd gan Gwyn Rhydderch:

### Noson agoriadol

<https://youtu.be/FWEtsJYfKTY>

### 'Yr Anferth a'r Anweladwy!'

Darlith yn edrych ar y bydysawd drwy dystiolaeth telesgopau Hubble a Webb, a byd moleciwlaidd DNA a phroteinau mewn ffordd syml a phoblogaidd.

*Dr Emyr Macdonald, Ysgol Ffiseg a Seryddiaeth, Prifysgol Caerdydd*

<https://youtu.be/NkYifnndrWE>

### Ymweliad Ysgol Tudweiliog â'r arddangosfa

<https://youtu.be/WEYbpbkQKQ9o>

### Gwaith yr arddangoswyr

<https://youtu.be/oDhNJ2gm-UM>

### Ffilm Afresymol!

<https://youtu.be/fZnNg-JfuAM>



## Bore coffi'n codi arian at Apêl Manipur

Fore Llun, 24 Mawrth, daeth cwmni da ynghyd i fore coffi yn festri Capel y Trinity, Abertawe, i gefnogi Apêl Manipur. Ynghyd â chyfeillion Bethel, Sgeti, eglwys yr Annibynwyr sy'n rhan o'r un ofalaeth bro, bu cyfle i gymdeithasu, i brynu nwyddau a danteithion o'r stondinau a ddarparwyd, ac i gyfrannu'n ariannol. Hefyd cafwyd sgwrs fer yn egluro peth o gefndir

argyfyngus yr apêl a'i harwyddocâd arbennig i ni yn Eglwys Bresbyteriaid Cymru. Hyfryd fu croesawu atom hefyd rai o aelodau Bethel, Llangyfelach, a Bethania, Treforys. Diolchwn i'r rhai fu'n ysgogi'r gweithgarwch am eu hymdrechion. Da gallu dweud bod swm o dros £1,270 wedi'i godi tuag at yr apêl.

Ceri Davies



## Gweinyddwr Academaidd (rhan amser)

Mae Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd / Cardiff Baptist College yn gymuned ffurfiannol ar sylfaen ffydd sydd wedi paratoi gwragedd a dynion ar gyfer gweinidogaeth Gristnogol ym mhob maes o fywyd ers 1807. Mae'r coleg yn defnyddio nifer o adeiladau ar safle yn Ffordd Richmond, Caerdydd. Defnyddir y gofod sydd ar gael ar y cyd â thenantiaid preifat a masnachol. Bydd y staff gweinyddol yn cydweithio'n glòs gyda'i gilydd i ofalu am weinyddiad beunyddiol y safle.

Dymuna ymddiriedolwyr CBC apwyntio Gweinyddwr Academaidd rhan amser (14 awr yr wythnos).

Gwahoddir unigolion sydd â phrofiad a chymwysterau cyfaddas i geisio am y swydd mewn llythyr gyda dim mwy na dwy dudalen yn amlinellu eu haddasrwydd i'r swydd, a CV cyfredol.

Dyddiad cau'r ceisiadau yw dydd Gwener, 11 Ebrill, a bydd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer yn derbyn gwybodaeth am hynny yn yr wythnos ddilynol. Cynhelir y cyfweiliadau ddydd Iau, 21 Ebrill.

Gobeithir y bydd y person a fydd yn cael ei (h) apwyntio yn medru dechrau ar ei (g)waith cyn Mai 2025. Bydd y swydd ran amser hon yn derbyn cyflog blynyddol o £21 yn awr.

Am fwy o wybodaeth ac i ymgeisio am y swydd, anfonwch at [applications@cbc.cymru](mailto:applications@cbc.cymru).



**Rev'd Dr Ed Kaneen**  
Pennaeth Dros Dro / Acting Principal  
Ebst/Email: [principal@cbc.cymru](mailto:principal@cbc.cymru)  
Gwefan/Website: [www.cbc.cymru](http://www.cbc.cymru)

Ffôn/Phone: +44 029 2025 6066

54 Richmond Road, Cardiff Caerdydd,  
CF24 3UR



A ydych yn awyddus i helpu pobl ifainc i ddoed i nabod Iesu?  
A hoffwch bontio rhwng Cristnogion ac ysgolion lleol?  
Profwch eich galwad trwy ymuno â Cadwyn Teifi fel ...

## GWEITHWR(AIG) YSGOLION – RHAN AMSER

Dyma gyfle gwych i sefydlu presenoldeb Cristnogol cryf yn nalgylchoedd Ysgol Henry Richard, Tregaron, ac Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan.

**Oriau:** 18 awr yr wythnos

**Tymor y Swydd:** Dwy flynedd i gychwyn

**Cyflog cychwynnol:** £12,600 - £15,000 ynghyd â threuliau

Am Swydd Ddisgrifiad neu sgwrs anffurfiol,  
cysylltwch â Densil Morgan, [d.d.morgan@uwtsd.ac.uk](mailto:d.d.morgan@uwtsd.ac.uk) | 07792 238763  
neu Delyth Morgans Phillips, [delyth.gwenllian@gmail.com](mailto:delyth.gwenllian@gmail.com) | 07971 375068  
facebook: [@delyth.gwenllian](https://www.facebook.com/delyth.gwenllian) | instagram: [@delyth.phillips](https://www.instagram.com/delyth.phillips)

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** 30 Ebrill 2025

*The ability to speak Welsh is beneficial for this post.*

*We would also welcome candidates willing to learn the language.*

## Y Weinidogaeth Iacháu

Cynhelir

Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu

19–22 Mai 2025

yn

Nghanolfan Gristnogol Cefn Lea,  
Dolfor, ger y Drenewydd, Powys

Am fwy o wybodaeth, cysyllter â Nerys Rowlands  
[nerysrowlands@hotmail.co.uk](mailto:nerysrowlands@hotmail.co.uk) cyn 30 Ebrill 2025

Dewch i fwynhau pedwar diwrnod neu gallwch dod draw am y dydd.

Ein siaradwraig wadd eleni yw

Dr Rhiannon Lloyd.

Byddwch yn sicr o gael bendith – mewn astudiaeth Feiblaidd, grwpiau trafod a gweddi, gwasanaeth agoriadol, gwasanaeth bendithio a chymun.

Cyfle i wneud ffrindiau newydd, llety cyfforddus a bwyd da.

Ar ddiwedd y pedwar diwrnod, dywedodd yn wraig oedd wedi dod yno am y tro cyntaf: 'Rhowch fy enw i lawr rŵan at y flwyddyn nesaf.'

Felly, does dim i'w golli – cysylltwch

Bydd croeso cynnes yn eich aros

## Bwletin Polisi Cytûn, Ebrill–Mai 2025

Rydym yn falch o gael tynnu sylw eto at gyhoeddiad deufisol Cytûn, sy'n siarad ac yn gweithredu ar ein rhan fel enwadau ynghyd yng Nghymru. Cafodd nifer o'r materion sylw eisoes gennym yn *Cenn@d* yn ddiweddar, a dyma restr o'r hyn a geir ynddo i'n hysgogi a'n hysbysu fel eglwysi o ddilyn y ddolen i'r cyhoeddiad llawn: [Bwletin Polisi Ebrill-Mai 2025](#)

Dymunwn yn dda i lestin Davies yn ei rôl newydd fel Swyddog Polisi Cytûn i olynu Gethin Rhys.

### Y Dyniaethau yng Nghymru

Yn dilyn cyhoeddiadau am newidiadau sylfaenol i ddysgu'r Dyniaethau a dileu hynny'n gyfangwbl mewn llawer o bynciau ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr PS, mae llythyr Cytûn ar y mater wedi denu sylw gan y cyfryngau yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig. Bydd Cytûn yn parhau i geisio eglurder ar rai materion penodol, yn enwedig am ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, a dyfodol y llyfrgelloedd ac adnoddau eang sydd wedi eu casglu yn y prifysgolion. Bydd hefyd yn gweithio gyda'i aelod eglwysi a mudiadau i agor trafodaeth ehangach am addysgu yn y Dyniaethau ar bob lefel addysgol yng Nghymru.

Dyna hefyd oedd testun y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd yn Senedd Cymru mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Ebrill.

### Yr amgylchedd

Ceir sylw i arolwg newydd gan y mudiad Eco Church sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd, gan sicrhau bod pob eglwys, waeth beth fo'i maint, ei lleoliad neu ei hadnoddau, yn gallu gweithredu a chael gwir effaith: <https://ecochurch.arocho.org.uk/>. Cawn glywed sut mae eglwysi'n tynnu cymunedau ynghyd drwy eu gwaith amgylcheddol yn aml, wrth i Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru gynnal ymchwiliad i Gydlyniant Cymdeithasol yng Nghymru.

Bydd 'Wythnos Caru eich Mynwent', wythnos i ddatlu bywyd gwyllt, yn cael ei chynnal ar 7–15 Mehefin eleni. Mae [Eglwysi'n Cyfrif Natur](#) yn canolbwyntio ar y bywyd gwyllt gwych sydd i'w gael mewn mynwentydd.

### Eglwysi'n gwrthwynebu torri Cymorth Tramor

Siom i Cytûn a'i aelod eglwysi oedd cyhoeddiad disymwth Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei bod am dorri ar wariant ar gymorth i wledydd tlotaf y byd o 0.5% i 0.3% o gynnyrch y wlad – colled o ryw £5.5bn y flwyddyn i'r gwledydd hynny. Bydd yr arian a arbedir yn cael ei ddargyfeirio'n wariant ar amddiffyn. Mae Cymorth Cristnogol wedi lansio ymgyrch o'r enw [Restore](#), gyda deiseb y gellir ei harwyddo i bwysu ar y Llywodraeth i adfer y gyllideb ar unwaith. Yn rhifyn 13 Mawrth o'r [Tyst](#), wythnosolyn Undeb

yr Annibynwyr Cymraeg, ceir patrwm o lythyr y gall eglwysi lleol ei anfon at eu Haelod Seneddol yn San Steffan am y mater.

### Cyfiawnder Cymdeithasol

Rhoddyd sylw eisoes i alwad Housing Justice Cymru a Sefydliad Bevan i greu cartrefi ar dir eglwysig segur.



Mae rhaglen ddogfen ddiweddar ar Channel 4 (10 Mawrth), wedi ei lleoli yng Nghymru, sef [Michael Sheen's Secret Million Pound Giveaway](#), wedi tynnu sylw at effaith credyd anfforddiadwy a dyledion ar unigolion, teuluoedd a chymunedau. I ddarllen mwy a gweld sut y gallwch chi weithredu i alw am Ddeddf Bancio Teg, ewch i'r wefan: <https://justmoney.org.uk/blog/lets-make-banking-fair>

### Cristnogion dan warchae

Cofiwch fod *Rhestr Gwylio'r Byd 2025* gan yr elusen Gristnogol Open Doors ar gael i'w harchebu, yn rhad ac am ddim yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gallwch archebu hyd at 30 o gopiâu yn Gymraeg [yma](#), neu yn Saesneg [yma](#). Am fwy na 30 copi, ffoniwch Open Doors ar 01993 460 015 neu e-bostiwch Jim Stewart: [jims@opendoorsuk.org](mailto:jims@opendoorsuk.org)

## Gŵyl Llanw 2025

Cynhelir yr ŵyl Gristnogol hon yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog, 21–5 Ebrill. Eleni, y thema fydd 'Dathlu Iesu, ein Proffwyd, Offeiriad a Brenin'. Bydd y Parch. Jonathan Thomas yn arwain tri sesiwn yn y bore yn edrych ar y tair agwedd yma o berson Iesu.

Hefyd, bydd Rachel Radbourne a Joseff Edwards yn arwain yr oedfaon nos Fawrth a nos Iau, gydag oedfa wedi ei threfnu'n arbennig ar gyfer yr ardal leol ar y nos Fercher.

Bydd darpariaeth lawn ar gyfer plant ac ieuencid gydol yr ŵyl, fel arfer. Am ragor o fanylion ac i archebu tocynnau, ewch i'r wefan: [Llanw 25 | Llanw](#)

Bydd croeso i bawb yno ar y diwrnod i fynychu'r oedfaon a'r seminarau, ond os ydych yn dymuno ymuno yn y prydau bwyd, bydd angen prynu tocyn dydd ymlaen llaw.





## 'I'r Gwyllt' yn Nhalgarth

'Cymuned wledig dros ben yw hon,' eglura Paul a Robyn dros goffi yn eu cartref yn Nhalgarth, 'ac oherwydd hynny mae'r rhwydweithiau o gysylltiadau a'r profiadau bywyd sydd gan bobly cylch yn wahanol iawn i rai pobl mewn ardal drefol!'

### Lleoliad gwledig

Symudodd Paul a Robyn Smethurst [i Sir Frycheiniog](#) ddwy flynedd yn ôl, gan ddilyn galwad Duw i wasanaethu fel Gweinidogion Cenhadol gyda Chymanfa Bedyddwyr Brycheiniog. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, maen nhw'n bugeilio'r gynulleidfa fach yng nghapel Penyrheol, dair milltir o Dalgarth. Fel llawer o gapeli ledled Cymru, mae'r adeiladau ym Mhenyrheol mewn lleoliad gwledig iawn – yn yr achos hwn, mewn llecyn sy'n cynnig golygfeydd godidog dros fynyddoedd a dyffrynnoedd Bannau Brycheiniog. Ers tro byd, roedd llawer o aelodau'r capel wedi teimlo y gellid gwneud gwell defnydd o'r lleoliad mynyddig i gysylltu â'r gymuned ehangach yn y cylch ond yn ansicr beth i'w wneud a sut i wneud hynny.

'Roeddem yn teimlo'n syth y byddai Penyrheol yn lleoliad perffaith i roi cynnig ar syniad [clwb "Go Wild"](#) Scripture Union,' meddai Paul. Mae 'Go Wild' yn gynllun sydd wedi'i ddatblygu dros y blynyddoedd diwethaf, a'r syniad y tu ôl iddo yw mynd i archwilio'r Greadigaeth yng nghwmni plant – a thrwy hynny eu helpu i feddwl am y Creawdwr. Mae gardd fawr, ddiddorol yn perthyn i'r capel ac mae'r 'stabl' (h.y. festri fach) wedi ei hadnewyddu yn ystod y degawd diwethaf. Yn ogystal â hyn, mae yna nifer o deuluoedd â chysylltiadau hanesyddol â'r capel, ac felly roedd yn amlwg fod yr elfennau i gyd yno i allu rhoi cynnig ar y syniad.

### Clwb 'I'r Gwyllt!'

Lansiwyd y clwb ym mis Mai 2023, gyda phedwar teulu yn dod draw a phawb yn cymryd rhan yn y gwaith o adeiladu gwesty trychfilod gyda'i gilydd. Mae'r fformat yn syml: dewis thema sy'n gysylltiedig â'r Cread bob mis (dŵr, coed ac ati), a'i harchwilio mewn ffordd hwyliog, flêr, ymarferol – ac yna adeiladu ar y gweithgaredd hwnnw gydag elfen ysbrydol.



'Mae'n lot fawr o hwyl – ac mae gwneud y gwaith ymarferol yna gyda'n gilydd, gan greu "bomiau hadau" blodau gwyllt, gwneud inc llus neu waith pren – yn tynnu pawb i mewn ac yn caniatáu i ni adeiladu'r gymdeithas yn ein plith. Yna gall sgysiaau ddigwydd yn naturiol, o fân siarad am bethau cyffredin i sgysiaau llawer dyfnach ac ysbrydol,' eglura Paul.

### Cysylltiad

Gydag amser, mae'r grŵp wedi tyfu'n organig i gynnwys naw teulu, ac mae Paul a Robyn yn glir mai'r gobaith o'r dechrau oedd y byddai hon yn fodd o gysylltu â theuluoedd cyfan – nid dim ond y plant, neu'r rhieni, neu'r to hŷn ar wahân. 'Wrth i'r berthynas rhyngom ddyfnhau, mae'r elfen ysbrydol hefyd wedi dyfnhau. Rydyn ni wedi gallu mynd o gyflwyno'r cysyniad o weddi, er enghraifft, i adrodd stori o'r Beibl sy'n gysylltiedig ag un o'n themâu. Ac mae cysylltiad naturiol wedi datblygu rhwng y clwb a gwasanaethau'r capel adeg y Nadolig neu'r Pasg, er enghraifft.'



Un canlyniad annisgwyl fu derbyn gwahoddiad i redeg clwb 'I'r Gwyllt' cyfochrog yn yr ysgol gynradd leol. Mae Robyn yn esbonio eu bod bellach yn rhedeg clwb ar ôl ysgol yno bob wythnos. Ac er bod yn rhaid i'r cynnwys fod yn symlach, mae wedi bod yn ffordd bwysig iddynt adeiladu perthynas â chymuned yr ysgol.

Mae'r gwaith o ddirnadau ble mae'r Ysbryd yn symud yn lleol yn parhau. Er hynny, mae'r Paul a Robyn yn cael eu calonogi gan y ffaith fod cymuned o deuluoedd ifanc bellach yn cyfarfod yn rheolaidd yng nghapel hardd Penyrheol yng nghanol gogoniant y greadigaeth yng nghanolbarth Cymru – a'u bod yn dechrau darganfod pwy yw Creawdwr y gogoniant hwnnw.

S4C

**Dechrau Canu, Dechrau Canmol**  
Sul, 13 Ebrill am 7:30yh – Sul y Blodau

Bydd Lowri Morgan yn sir Drefaldwyn i ddathlu Sul y Blodau a dysgu mwy am draddodiadau Cymreig yr ŵyl. A chawn ymweld â chapel coffa'r emynyddes Ann Griffiths yn Nolanog. Daw'r emynau o Gapel y Tabernacl, Llanfyllin, a chawn berfformiad disglair gan yr unawdydd Siwan Henderson.

radio  
cymru

**Caniadaeth y Cysegr**  
Sul, 13 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp

Amrywiaeth o emynau ar Sul y Blodau yng nghwmni Delyth Wyn Davies, Chwilog

**Oedfa Radio Cymru**

Sul, 13 Ebrill, am 12:00yp

Oedfa Sul y Blodau dan ofal Ann Davies, AS, Llanddarog

# Undod Cristnogol mewn Byd sy'n Chwalu

WYTHNOS 6

## Eglwys ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon – myfyrdodau ar gyfer y Grawys

### Cerdded gyda'n gilydd mewn gobaith

#### Darlleniad

Eseia 40:31

#### Myfyrdod

Weithiau gall y rheini ohonom sydd â chysylltiadau eciwmenaidd ystyrion eu cymryd yn ganiataol, heb sylweddoli bod rhaniadau ymhlith Cristnogion yn dal i fod yn allweddol yn y ffordd y mae'r gymdeithas yn ehangach yn gweld yr Eglwys. Gwelwyd y gall Cristnogion o wahanol enwadau sy'n dod at ei gilydd pan fydd y gymdeithas yn gyffredinol yn dioddef, fel a ddigwyddodd yn ystod pandemig COVID-19, helpu i gyfleu neges o obaith oherwydd bod yr undod gweladwy hwnnw'n dal sylw pobl.

Nid yw'r neges o obaith yr ydym yn ceisio'i chyfleu yn seiliedig ar optimistaeth arwynebol sy'n anwybyddu neu'n ceisio lliwio'r heriau dwys sy'n wynebu ein cymunedau lleol ar hyn o bryd, ac nid yw chwaith yn ceisio tawelu neu atal lleisiau'r rhai sy'n dioddef. Yn hytrach, mae'n obaith sy'n seiliedig ar ffydd, ffydd yng nghariad trugarog Duw ac ym mhotensial y bobl a greodd Duw.

Mae'r cyd-destun yr ydym yn ceisio arwain ynddo yn un sy'n aml yn cael ei reoli gan ofn lle mae pobl yn colli gobaith y bydd y dyfodol yn well, iddyn nhw ac i genedlaethau iau. Mae'r ofn a'r colli gobaith hwn yn aml yn cael ei waethygu neu ei ecsbloetio gan rai mewn swyddi dylanwadol er budd gwleidyddol neu bersonol. Gall y realiti dynol iawn fod arwyddion o ddirywiad, fel llai o bobl yn mynychu'r eglwys neu absenoldeb pobl ifanc ynddynt, effeithio ar ymateb

yr Eglwys, gan beri i bobl bryderu am ddyfodol llawer o gymunedau eglwysig.

Yn ein cyfarfyddiadau eciwmenaidd, rydym yn cael ein cefnogi a'n herio i barhau i fod â gobaith er gwaethaf ein siomedigaethau. Mewn sawl man, adeiladu perthynas a chysylltiadau rhwng eglwys lleol sydd wedi ei gwneud yn bosibl iddynt barhau i wasanaethu cymunedau er gwaethaf niferoedd sy'n lleihau neu adnoddau prin. Ac mae'r dod ynghyd yma wedi arwain at drawsnewid perthynas a bod yn agored i brofiadau newydd.

Gall ein profiad o droi straeon am ddirywiad a cholli cysylltiad yn straeon am ailadeiladu a sefydlu perthynas newydd gynnig gobaith i gymunedau sy'n ei chael hi'n anodd heddiw. Mewn llawer o achosion, roedd y profiad o adnewyddu ac ailadeiladu yn golygu meddwl am y gymuned mewn ffordd wahanol, gan groesawu grŵp ehangach ac amrywiol o bobl yn aml i brofiad o obaith wedi'i ysbrydoli gan ffydd.

#### Cwestiynau ar gyfer myfyrio a thrafod

- Meddyliwch am y rhai wnaeth ymgynnull ar gyfer Cyngor Nicea. Beth ydych chi'n ei feddwl oedd eu gobeithion am yr hyn y gallent ei gyflawni drwy'r Cyngor?
- Sut mae hyn yn cymharu â'r gobeithion y byddwch yn dod ar eu traws mewn cyfarfodydd eciwmenaidd heddiw?
- Sut mae hyn yn cymharu â'r gobeithion a fynegwyd mewn manau eraill ar gyfer deialog am ddyfodol y gymuned leol neu'r gymdeithas ehangach?



#### Gweithredu

- Gwnewch restr o enghreifftiau o drawsnewid sy'n rhoi gobaith i chi. Gallai hyn gynnwys yr hyn sy'n cael ei gyflawni yn y byd addysg, iechyd y cyhoedd, trawsnewidiadau mewn agweddau neu newidiadau i gyfeiriad polisi gwleidyddol. Beth allwn ni ei ddysgu o'r llwyddiannau hyn?
- Disgrifiwch ddiwyddiad neu gynulliad oedd yn llawn gobaith, yn eich barn chi. Nodwch y ffactorau a gyfrannodd at y profiad cadarnhaol hwn. Sut y gellid efelychu hyn yng ngwaith yr eglwys yn eich cyd-destun lleol?
- Nodwch ffyrdd ymarferol y gallech gyfleu neges o obaith yng nghyd-destun eich eglwys leol, fel thema reolaidd a chyson, yn ddelfrydol mewn ffyrdd sy'n weladwy i'r gymuned o'i chwmpas.

#### Gweddi

Arglwydd,  
adnewyddu ein gobaith  
drwy ffydd ynot Ti  
ac yn ein gilydd.  
Helpa ni i estyn allan  
i'r rhai sy'n cael anhawster  
iddal ati i obeithio ar hyn o bryd,  
nid drwy gynnig atebion hawdd,  
ond gyda pharodrwydd i wrando  
a bod yn bresennol  
ac i deithio gyda hwy,  
a rhannu'r gobaith sy'n llofu o'n ffydd.  
Amen.



Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i [www.gair.cymru](http://www.gair.cymru)



# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt

## Adolescence



Yr wythnos hon mae dau beth wedi bod ar fy meddwl i. Yr un cyntaf yw rhaglen roeddwn i wedi ei gwyllo ar Netflix gyda'n mab: rhaglen dorcalonnus a heriol dros ben. Dwi'n siŵr eich bod chi wedi clywed am *Adolescence*, ond os nad ydych, mae'r rhaglen yn dilyn stori bachgen 13 oed wedi'i gyhuddo o ladd merch oedd yn mynd i'r un ysgol â fe. Stori ffuglen yw *Adolescence*, ond stori wedi'i seilio ar sawl achos go iawn. Dydw i ddim eisiau rhannu unrhyw *spoilers*, ond un o agweddau mwyaf cythryblus y rhaglen yw'r ffordd y mae negeseuon negyddol, peryglus a threisgar yn cael eu rhannu ar y We gyda phobl ifanc. Un o'r enwau a ddaeth lan yn y rhaglen oedd Andrew Tate, dyn cysylltiedig ag agweddau negyddol a hyd yn oed treisgar i fenywod. Mae dylanwad Tate ar fechgyn ifanc yn anhygoel: darllenais erthygl yn honni bod 80% o fechgyn 16–17 mlwydd oed yn y Deyrnas Unedig wedi darllen neu wyllo rhywbeth gan Tate. Mae'n disgrifio'i hun fel 'the most googled man on the planet'.

A'r ail beth yw'r ffaith fy mod i'n mynd i'r Senedd yfory gyda phedwar o'm cydweithwyr i esbonio i grŵp trawsbleidiol

o wleidyddion pam mae hi'n hollbwysig cadw diwinyddiaeth fel un o'r pynciau sydd ar gael i fyfyrwyr yng Nghymru. Mae 'na argyfwng cenedlaethol yn y maes yma. Mewn ysgolion yng Nghymru, mae Addysg Grefyddol wedi'i disodli gan Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM). Ond mae adroddiad gan Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol Cymru ym Mhrifysgol Bangor wedi dangos bod hanner ysgolion uwchradd Cymru yn methu cyflwyno'r ddarpariaeth gyfreithiol ar gyfer y pwnc. (Am ryw reswm, dydy hynny ddim wedi digwydd i'r un graddau yn Lloegr.) Mae'n amlwg, felly, y byddai niferoedd y myfyrwyr sydd eisiau astudio'r pwnc ar lefel A yn disgyn, ac felly bydd llai o fyfyrwyr yn gwneud cais i astudio diwinyddiaeth neu astudiaethau crefyddol yn y brifysgol. Dim syndod, felly, fod Prifysgol Caerdydd wedi cyhoeddi y bydd cymwysterau mewn diwinyddiaeth ac addysg grefyddol yn dod i ben fel rhan o'r toriadau arfaethedig.

Dim syndod, ond trasiedi llwyr. Achos dim ond parodi twp yw'r syniad fod gradd mewn diwinyddiaeth yn

golygu dim byd ond dadlau diffwrth am ewylls rydd ac uffern a natur y drindod. Mae diwinyddiaeth yn ceisio ateb cwestiynau dyfnach unigolion a chymdeithas: beth yw pwynt bywyd? Ydw i'n berson da? Beth sy'n digwydd ar ôl i fi farw? Oes yna'r fath beth â rhyfel cyfiawn? Beth mae'n ei olygu i fod yn ddyd heddiw? Sut dylen ni drin pobl dlotaf a mwyaf bregus ein cymdeithas? Ydy carchar yn syniad da?

Fydd y cwestiynau hyn ddim yn diflannu pan fydd Prifysgol Caerdydd yn cau diwinyddiaeth ac addysg grefyddol i lawr. Yn lle hynny, bydd pobl ifanc yn gorfod mynd i lefydd eraill i ffeindio'r atebion: ar-lein, efallai, lle mae pobl ddrwg fel Andrew Tate yn rhannu dylanwad niweidiol a pheryglus.

Mae rhaid i'n heglwysi ni ddeffro i'r ffaith fod gennym atebion i'r cwestiynau sylfaenol yna: atebion Iesu sy'n dod â gobaith a bywyd yn lle anobaith, trais a marwolaeth. Gweddïwn am y cyfle i godi ein lleisiau fel y bydd pobl ifanc yn gwybod bod negeseuon gwell ar gael iddyn nhw.

## Byw'n Gymunedol

Elfen bwysig o fywyd eglwysig yw cymdeithas y saint. O fewn yr eglwys Gristnogol mae hanes hir i'r arfer o fyw'n gymunedol. Mae rhai Cristnogion hyd yn oed wedi dewis byw ynghyd mewn cymunedau clôs iawn gyda'i gilydd. Mae amgylchiadau amrywiol yn peri i rai bobl fyw'n gymunedol, er enghraifft, carchar i droseddwyr, cartref preswyl i blant neu bobl oedrannus a gwrsyll milwrol i filwyr. Dewis rhai yw byw'n gymunedol ond gorfodir hyn ar eraill. Arferai'r Eglwys Fore gwrdd yn y deml yn Jerwsalem yn ddyddiol gan rannu eu heiddo â'i gilydd. Dinistriwyd y deml yn 70 OC ac felly gwasgarwyd y Cristnogion cynnar ar led. Ond arhosodd yr awydd am gymdeithas gynnes yn eu plith.

Cododd mudiadau yn yr eglwys yn galw ar i Gristnogion fyw ynghyd mewn cymunedau cymdeithasol. Yn eu plith caed mynachod yn byw

mewn mynachlogydd, pobl bietistaidd yn byw mewn cymdeithasau clôs a sectau peryglus yn byw mewn lleoedd cyfyngedig. Llwyddiant oedd hanes rhai ohonynt, ond methiant oedd hanes rhai eraill. Pachomius o Thebes (c.292–c.348) oedd y cyntaf i sylfaenu mynachlog a hynny yn yr Aifft c.320. Ffurfiwyd y Benedictiaid gan Benedict o Nursia (c.480–c.545) yn 529. Tyfodd y mudiad mynychaid yn sylweddol yn yr Oesoedd Canol gan esgor ar urddau fel y Sistersiaid, y Ffranciaid a'r Dominiciaid.

Diddorol oedd ymddangosiad cymunedau Protestannaidd fel y Morafiaid yn y 18fed ganrif dan arweiniad Nikolaus Ludwig, Count von Zinzendorf (1700–60). Dylanwadodd y gymuned hon yn fawr iawn ar John Wesley. Tebyg oedd y dylanwad yn hanes Teulu Trefeca yn yr un ganrif, dan arweiniad Howel Harris. Trychinebus oedd hanes sect grefyddol Jim Jones pryd y bu farw 918 o bobl mewn hunanladdiad torfol yn Guyana

ym 1978. Dengys hyn eithafion byw'n gymunedol. Mor rhwydd y gall pobl ddidwyll ildio'n ddigwestiwn i arweinydd twyllodrus!

Unigolion o'r un bryd sy'n ffurfio cymuned Gristnogol. Ond mae yna rai unigolion sydd wedi dewis dilyn y bywyd Cristnogol ar eu pennau eu hunain fel meudwyaid. Paul o Thebes (c.226–c.341) oedd y meudwy Cristnogol cyntaf i fyw yn yr anialwch a hynny rhwng 16 ac 113 mlwydd oed.

Y teulu yw uned sylfaenol cymdeithas. Felly, gall cyd-fyw ag eraill y tu fas i'r teulu naturiol fod yn dipyn o gamp. Ond gall Cristnogion fyw'n gymunedol drwy arfer lletygarwch a chwrdd yn rheolaidd.

Gall cymdogaeth glôs gryfhau'r uned deuluol. Felly, gall yr eglwys gryfhau'r uned deuluol. Mae Cristnogion i fod yn '[l]letygar i'ch gilydd' (1 Pedr 4:9) ac yr ydym i 'annog ein gilydd' (Hebreaidd 10:25).

Peter Davies

# Myfyrdod Sul y Pasg

Mae dydd Gwener wedi pasio. Ry'n ni wedi clywed yr Iesu'n dweud wrth y byd: **"GORFFENNWYD!"**

Ry'n ni wedi gweld Joseff o Arimathea yn rhoi bedd newydd sbon i gladdu'r Iesu.

Mae'r Sadwrn wedi pasio. Roedd yn rhaid claddu'r Iesu, ond doedd dim modd gwneud hynny ar y Sabath, ac yn arbennig ar Sabath yn ystod Gŵyl y Bara Croyw.

Ond mae'n fore Sul; mae'r Sabath drosodd, ac mae cyfle i ddala lan gyda'r gwaith o eneinio'r corff, a gwneud y gymwynas olaf gyda Iesu.

Roedd hi wedi mynd yn dywyll brynhawn Gwener. Roedd y disgyblion a nifer o'r dilynwyr wedi ffoi, gan ofni am eu bywydau. Dim ond y tywyllwch mawr, yr anobaith, yr oedd y byd yn ei weld. Ond yn y tawelwch roedd yr amser i gyfrif i dri wedi dod.

Un, dau, tri ... Gwawriodd bore newydd – bore'r trydydd dydd.

## Darllen Marc 16:1–8

Cofiw'n taw mynd i weld y corff oedden nhw, a mynd gan feddwl sut oedden nhw'n mynd i symud y garreg. Sut oedden nhw'n mynd i roi'r peraroglau ar y corff? Sut oedden nhw'n mynd i weithio pethau mas? Mae Mair Magdalen, Mair mam Iago a Salome yn cyrraedd y bedd:

    Gyda sanctaidd wawr y bore  
    teithiai'r gwragedd at y bedd,  
    clywid ing yn sŵn eu camre,  
    gwelid tristwch yn eu gwedd;

a'r geiriau nesaf: 'Cododd Iesu' (*Caneuon Ffydd*, rhif 550).

A fan hyn ry'n ni'n gweld y newid mawr yn yr hanes – ry'n ni'n gweld y gwragedd yn sylweddoli fod y garreg wedi symud ac yn mentro i mewn.

Dyna'r trawsnewid yn dechrau. Dim tair yn cerdded yn ddiflas a ling-di-long sydd gyda ni rhagor, ond 'Pobol y Pasg'. Mae'r cwbl wedi newid: does dim tristwch rhagor, mae Iesu'n fyw!

'Peidiwch ag arswydo. Yr ydych yn ceisio Iesu, y gŵr o Nasareth a groeshoeliwyd. Y mae wedi ei gyfodi; nid yw yma; dyma'r man lle gosodasant ef. Ond ewch, dywedwch wrth ei ddisgyblion ac wrth Pedr. "Y mae'n mynd o'ch blaen chwi i Galilea; yno y gwelwch ef, fel y dywedodd wrthy'ch". (Marc 16:6–7)

Yr angel neu'r bachgen ifanc oedd wedi eu hargyhoeddi am yr hyn oedd wedi digwydd, ac, ie, wir, roedd y tair wedi dod yn 'bobol y Pasg'.

Rhaid cofio bod yr angel wedi dweud wrthyn nhw am ddweud wrth y disgyblion, ac enwi Pedr. Aildynnu Pedr 'nôl i'r gang wedi iddo fradychu Iesu a'r gweddill wrth ddweud nad oedd yn nabod Iesu.

Roedd y disgyblion wedi dechrau mynd 'nôl i wneud eu pethau bob dydd, cyn iddyn nhw wybod am atgyfodiad Iesu, y bedd gwag, a'r gobaith newydd oedd ganddynt.

Beth oedden nhw'n ei feddwl oedd yn mynd i ddigwydd? Oedd eu dyfodol nhw'n ddiflas neu oedd ganddyn nhw bethau i edrych mlaen atynt?

Ond mae hyn a'r digwyddiadau eraill ry'n ni'n darllen amdany'n nhw yn yr Efengylau eraill yn eu gwneud yn 'bobol y Pasg'. Y rhai yr oedd eu bywydau wedi eu hysgwyd wrth y groes nawr yn gweld ystyr newydd Sul y Pasg.

## Ymlaen i'r Pasg 2025

Wyau siocled o bob math a maint; cwningod y Pasg, rhyw hetiau wedi eu haddurno.

Os bydden ni'n Gwlglo 'Pobol y Pasg' neu 'Easter People', geiriau fel dioddef a siom sy'n dod lan! Ond mae'r Pasg hefyd yn ymwneud â chariad, gobaith, a'r addewid o'r hyn sydd eto i ddod.

'Dyw bod yn 'berson Pasg' ddim yn golygu ein bod yn dod o hyd i wy siocled rownd pob cornel. Ond mae'n golygu ein bod ni ar daith arbennig gyda bywyd tragwyddol ar y diwedd:

    Bywyd newydd ddaeth i ni  
    wedi concwest Calfarî.

Fel pobol y Pasg, mae eisiau i ni roi gobaith i'r rhai sydd ei angen, a bod yn oleuni yn y tywyllwch.

Yn y darlleniad o Efengyl Marc, ry'n ni'n teimlo'r ing, ac yna'r llawenydd annisgwyl. Mae'r merched wrth y bedd yn disgwyl y gwaethaf, ond yn darganfod y newyddion gorau y gallai'r byd erioed eu clywed! Maent yn profi llawenydd allan o anhrefn y dyddiau cynt.

Cadwch obaith y Pasg o fywyd newydd wedi'i wreiddio yn y canol. Cofiwch fod bod yn 'berson Pasg' yn rhywbeth am oes, nid yn unig ar gyfer y Pasg!

Bydd yr wyau wedi'u bwyta, y foned wedi cael ei rhoi o'r neilltu, ond bydd gobaith y Pasg yn aros.

Roedd yr awdurdodau wedi meddwl fod popeth wedi ei gyflawni ar ddydd Gwener y Groglith – gweld yr un oedd i fod yn broblem yn cael ei groeshoelio.

Ond roedd Sul y Pasg yn ddatguddiad o Dduw. Doedd dim modd ei gadw 'nôl; doedd y groes na'r bedd yn ddim:

    Mae'n fyw, mae'n fyw,  
    mae Crist yn fyw yn awr;  
    ei gwmni gaf a'i glywed wnaif  
    ar ddyrys daith y llawr:  
    mae'n fyw, mae'n fyw  
    i achub torf ddi-ri';  
    (*Caneuon Ffydd*, rhif 389)

Mae'r groes a'r atgyfodiad wedi newid cwrs y byd. Maen nhw'n herio popeth ry'n ni'n ei feddwl am fywyd a marwolaeth. Mae ein ffydd yn cylchdroi o amgylch yr un digwyddiad ma.

Mae eisiau'r Pasg arnom ni i ddod â ni'n fyw, yn ein sefyllfa ni. Dim ond un oedd yn ddigon da i gael ei atgyfodi – Iesu, Mab y Duw Byw.

Ar ddydd Sul y Pasg 2025 ry'n ni'n cael ein galw i fod yn ddisgyblion i Iesu, i fyw'r Efengyl, ac i fyw yn ôl gobaith yr atgyfodiad.

'Pobol y Pasg' ydyn ni, disgyblion y Crist BYW.

Er mwyn gwneud hynny, rhaid i ni offren y pennill:

    Mae'n fyw, mae'n fyw,  
    mae Crist yn fyw yn awr;  
    ei gwmni gaf a'i glywed wnaif  
    ar ddyrys daith y llawr:  
    mae'n fyw, mae'n fyw  
    i achub torf ddi-ri';  
    **os gofyn 'rwyf, "Sut gwyddost ti?"**  
    **Mae'n fyw'n fy nghalon i.**



## Gweddï

Dduw Dad, Arglwydd y Grawys, Arglwydd y Pasg, Arglwydd gobaith. Diolch i ti am wyl y Pasg unwaith eto eleni. Wedi'r Grawys, a'r amser paratoi, gad i ni deimlo dy ogoniant yn ein plith. Gwna ni'n 'bobol y Pasg', yn barod i fyw d'efengyl, a hynny yn ei llawnder. Amen.

*Emyr Williams*  
*Gofalaeth y Gwendraeth*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)  [CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru)  [@CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)